

BCW/ 2016/ Cyfarfod partïon â buddiant

## COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Nhŷ Hastings, Caerdydd, am 10:00am ddydd Llun 29 Chwefror, 2016.

### Yn Bresennol:

Syr Wyn Williams  
Yr Athro Robert M<sup>c</sup>Nabb  
Mr Paul Loveluck

Dirprwy Gadeirydd  
Comisiynydd  
Comisiynydd

Steve Halsall  
Matthew Redmond  
Tom Jenkins  
Ralph Handscomb

Ysgrifennydd y Comisiwn  
Dirprwy Ysgrifennydd y Comisiwn  
Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn  
Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn

Meri Huws  
Lowri Williams  
Rhys George  
Zachary Brookes  
Steve Thomas  
Daniel Hurford  
Anna Daniels

Comisiynydd y Gymraeg  
Comisiynydd y Gymraeg  
Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol  
Llywodraeth Cymru  
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru  
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### 1. Croeso a Chyflwyniadau

- 1.1. Agorwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Gadeirydd.
- 1.2. Cafwyd chyflwyniadau gan bawb a oedd yn bresennol.

### 2. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

- 2.1. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Bethany Adams (Cynulliad Cenedlaethol Cymru), Hugh Rawlings (Llywodraeth Cymru) a'r Comisiwn Etholiadol.

### 3. Cefndir a Diben

- 3.1. Rhoddodd y Dirprwy Gadeirydd gefndir i'r arolwg a nododd beth fyddai'n cael ei drafod yn ystod y cyfarfod.

### 4. Nifer yr Etholaethau a'r Cwota Etholiadol

- 4.1. Datganodd y Dirprwy Gadeirydd nifer yr etholaethau a'r cwota etholiadol ar gyfer pob etholaeth fel y'u pennwyd gan y Ddeddf.
- 4.2. Dychwelodd y Ddeddf 29 o etholaethau i Gymru a'r cwota etholiadol oedd 74,769 o etholwyr fesul etholaeth. Bydd yn rhaid i'r Comisiwn, o dan y gyfraith, aros o fewn 5% uwchlaw neu islaw'r ffigur hwn. Yr amrediad y bydd y

Comisiwn yn gallu ei ddefnyddio fesul etholaeth felly fydd rhwng 71,031 a 78,507 o etholwyr i bob etholaeth.

## 5. Amserlen

- 5.1. Amlinellodd y Dirprwy Gadeirydd yr amserlen ragweledig ar gyfer yr arolwg, a pha bryd y mae'r Comisiwn yn rhagweld y bydd yn cyrraedd cerrig milltir gwahanol yr arolwg.
  - Lansio'r Arolwg – Mawrth 2016
  - Cynigion Cychwynnol ac yna cyfnod Ymgynghori i ddilyn – Medi 2016
  - Gwrandawiadau Cyhoeddus – Hydref/ Tachwedd 2016
  - Ail Gyfnod Ymgynghori – Chwefror/ Mawrth 2017
  - Cynigion Diwygiedig ac yna Ymgynghoriad i ddilyn – Yr Hydref 2017
  - Cynigion Terfynol – Medi 2018
- 5.2. Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn fodlon â'r amserlen fel y'u hamlinellwyd gan y Dirprwy Gadeirydd.

## 6. Datblygu Cynigion

- 6.1. Dywedodd y Dirprwy Gadeirydd fod y Comisiwn wedi cytuno ar bolisiau i'w dilyn yn ystod yr arolwg. Byddai hyn yn galluogi cadw cysondeb yn yr arolwg, hyd yn oed pe bai'r personél yn newid.
- 6.2. Bydd y Comisiwn yn ystyried yr holl reolau a nodwyd yn y Ddeddf o ran datblygu cynigion. Dywedwyd, er y gwnaed cynrychiolaeth i'r Senedd, nad oedd Ynys Môn wedi'i heithrio o'r arolwg.
- 6.3. Byddai'r Comisiwn yn osgoi rhannu wardiau etholiadol a chymunedau lle bo modd gwneud hynny.
- 6.4. Ni fyddai'r Comisiwn yn cynnig etholaeth lle nad oedd modd teithio ar hyd ffordd ar draws yr etholaeth honno.

## 7. Enwau Etholaethau a Dynodiad

- 7.1. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn o dan y gyfraith i roi enw i bob un o'r etholaethau yng Nghymru.
- 7.2. Bydd y Comisiwn yn darparu enw ac enw mewn iaith arall lle bo angen.
- 7.3. Bydd y Comisiwn yn defnyddio pwyntiau'r Cwmpawd os oes angen yn enwau'r etholaethau.

## 8. Gwrandawiadau Cyhoeddus

- 8.1. Bydd y Comisiwn eto yn defnyddio Comisiynwyr Cynorthwyol i gynnal pob gwrandawriad cyhoeddus, a bydd y gwrandawiadau hyn yn cael eu cynnal yn ddwyieithog.
- 8.2. Bydd pum gwrandawriad ar hyd a lled Cymru.
- 8.3. Dywedodd y Dirprwy Gadeirydd bod gwrandawiadau wedi'u cynnal yng Nghaerdydd, Abertawe, Caernarfon, Wrecsam a Llandrindod yn ystod yr arolwg diwethaf.
- 8.4. Byddai'r Comisiwn yn ystyried p'un ai i gadw'r un canolfannau a lleoliadau, neu ddefnyddio lleoliadau gwahanol. Bydd y Comisiwn hefyd yn ystyried cynnal gwrandawriad ymhellach i'r gorllewin yn ystod yr arolwg hwn.

- 8.5. Bydd y Comisiwn hefyd yn ystyried fideo-gynadledda yn y gwrandawiadau cyhoeddus hyn fel opsiwn arall ar gyfer derbyn cynrychiolaethau.

## 9. Ymgynghoriadau

- 9.1. Dywedodd y Dirprwy Gadeirydd fod y Comisiwn yn cydweithredu gyda'r Comisiynau Ffiniau eraill yn y DU i sefydlu porth ymgynghori ar-lein mewn pryd ar gyfer y cyfnod ymgynghori ar ôl cyhoeddi'r Cynigion Cychwynnol.
- 9.2. Gofynnodd y Comisiwn am gymorth cynrychiolwyr CLILC i bennu manau ar gyfer cadw adroddiadau ym mhob prif awdurdod.

## 10. Unrhyw Gwestiynau Pellach

- 10.1. Gofynnodd y Cynrychiolydd o CLILC a fyddai cofnodion y cyfarfod ar gael i'r cyhoedd. Dywedodd y Dirprwy Gadeirydd y byddai'r cofnodion yn cael eu cylchredeg er mwyn cael cytundeb arnynt, ac yna eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn gyda'r nod o sicrhau tryloywder clir.
- 10.2. Gofynnodd y cynrychiolydd o Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a fyddai'r Comisiwn yn defnyddio'r set ddiwethaf o gynigion fel sail ar gyfer yr arolwg. Byddai'r Comisiwn yn defnyddio'r wybodaeth, fodd bynnag, byddai'n annhebygol o allu defnyddio'r un cynigion oherwydd nifer o ffactorau, sef y newid yn nifer yr etholwyr a nifer yr etholaethau yn gostwng o 30 i 29.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:10.